# Cofio
## 2021

# Gwasanaeth wrth y
# Gofeb Rhyfel
# a'r
# Deial Haul Coffa

ym

Mhencadlys Heddlu De Cymru,
Pen-y-bont ar Ogwr

Dydd Iau 11 Tachwedd, 2021 am 10.50am

Heddlu De Cymru • South Wales Police

# Trefn y Gwasanaeth



# Wrth y Gofeb Rhyfel

*Prif Gwnstabl Jeremy Vaughan*

## CROESO

*Y Parchedig Gaplan Glynne James*

Rydym wedi ymgynnull yma heddiw ym mhresenoldeb yr Hollalluog Dduw i ddiolch iddo ac i goffáu aberth y rhai a fu farw dros ein rhyddid ni.
**Amen**

## DEFOD Y COFFA

### YR UTGORN OLAF

### Y DISTAWRWYDD

### REVEILLE

### YR ANOGAETH

*Prif Gwnstabl*

Ni heneiddiant hwy, fel ni, a adawyd:

Ni ddwg oed iddynt ludded, na'r
blynyddoedd gollfarn mwy.

Pan elo'r haul i lawr ac ar wawr y bore,

Ni â'u cofiwn hwy.

*A phawb i ailadrodd:*
**Ni â'u cofiwn hwy**

## GOSOD Y TORCHAU

### BEDDARGRAFF KOHIMA

*Prif Gwnstabl*

Pan ddychwelwch adref,
dywedwch hyn amdanom ni,
mai er mwyn eich yfory chwi,
rhoddasom ein heddiw ni.



# DARLLENIAD

## IOAN Pennod 15 adnod 12-17

*Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru*
*Alun Michael*

Dyma fy ngorchymyn i, carwch eich gilydd
fel y cerais i chwi.

Nid oes gan neb gariad mwy na hyn, sef bod
dyn yn rhoi ei einioes dros ei gyfeillion.

Yr ydych chwi'n gyfeillion i mi os gwnewch
yr hyn yr wyf fi'n ei orchymyn i chwi.

Nid wyf mwyach yn eich galw'n weision, oherwydd nid yw'r gwas yn gwybod beth y mae ei feistr yn ei wneud. Yr wyf wedi eich galw yn gyfeillion, oherwydd yr wyf wedi gwneud yn hysbys i chwi bob peth a glywais gan fy Nhad.

Nid chwi a'm dewisodd i, ond myfi a'ch dewisodd chwi, a'ch penodi i fynd allan, a dwyn ffrwyth, ffrwyth sy'n aros. Ac yna, fe rydd y tad i chwi beth bynnag a ofynnwch ganddo yn fy enw i.

Dyma'r gorchymyn yr wyf yn ei roi i chwi:
carwch eich gilydd.



# GLYN DAVID RHYS-WILLIAMS
## *Dewrder gŵr ifanc yng Ngogledd Affrica*



*Gareth Madge*

Roedd Glyn yn dod o deulu nodedig yn Sir Forgannwg a oedd yn byw ym Maenor Meisgyn, nid nepell o Bencadlys yr Heddlu.

Roedd ei dad-cu yn farnwr. Roedd ei dad hefyd yn gyfreithiwr ac yn Aelod Seneddol, ac roedd ei fam yn weithgar yn y byd gwleidyddol. Yn y dyddiau cyn y wladwriaeth les, gwnaeth lawer i hyrwyddo gwasanaethau mamolaeth a lles plant.

Roedd Glyn, fel ei dad o'i flaen, yn ddisgybl yng Ngholeg Eton ac, yn 1939, daeth yn Gwnstabl Gwirfoddol yn Heddlu Morgannwg, gan wasanaethu ym mhencadlys yr heddlu yng Nghaerdydd.

Pan dorrodd yr Ail Ryfel Byd, ymunodd â'r Gatrawd Gymreig fel milwr preifat ond yn fuan daeth yn swyddog yn y Gwarchodlu Cymreig, sef y gatrawd roedd ei dad wedi gwasanaethu ynddi gydag anrhydedd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

Yn y pen draw, dyrchafwyd Glyn i reng capten yn y 3ydd Bataliwn a fu'n brwydro yn erbyn lluoedd Almaenig yn Tunisia yn 1943.

Ar 9 Ebrill, bu'n rhaid i'r Bataliwn ymosod ar dir uchel uwchlaw Bwlch Fondouk. Cafwyd brwydr anodd a chollodd y Bataliwn sawl aelod cyn goresgyn yn y pen draw.

Roedd arweinyddiaeth ysbrydoledig a dewrder Glyn yn allweddol i'r fuddugoliaeth hon. Yn anffodus, wrth iddo arwain yr ymosodiad olaf, cafodd ei saethu a'i ladd gan saethwr cudd.

Disgrifiwyd ei gyfraniad fel rhan o hanes y Gwarchodlu Cymreig yn yr Ail Ryfel Byd fel a ganlyn:

***"So he died, giving his life to ensure a victory which already owed so much to his quick understanding of what was needed, his unhesitating acceptance of responsibility, and his selfless devotion to duty."***

Yn sgil ei weithredoedd ar y diwrnod hwnnw, argymhellodd ei brif swyddog y dylid rhoi Croes Victoria iddo. Yn anffodus, ni chyflawnwyd hyn er iddo gael ei enwi mewn adroddiadau.

Roedd Glyn yn 21 oed pan fu farw.

Mae wedi'i gladdu ym mynwent rhyfel y Gymanwlad yn Enfidaville yn Tunisia. Mae ei garreg fedd yn cynnwys y geiriau:

***"Blessed are the pure in heart for they shall see God."***

Yn agosach i gartref, yn Eglwys Dewi Sant, Meisgyn, mae plac a ffenestr gwydr lliw i goffáu amdano.

Mae ei enw hefyd yn ymddangos ar Gofeb Rhyfel Heddlu Morgannwg yma ym Mhencadlys yr Heddlu lle mae Heddlu De Cymru yn ei gofio ef a'i ddewrder yn llawn balchder.

*Caplan*

Gadewch i ni gofio gerbron Duw, ac ymddiried i'w ofal sicr:

y sawl a fu farw dros eu gwlad mewn rhyfel;
y sawl yr oeddem yn eu hadnabod, a'r sawl rydym yn trysori'r cof amdanynt;
a'r sawl sydd wedi byw a marw i wasanaethu dynoliaeth.

Boed iddynt orffwys mewn heddwch a dyrchafu mewn gogoniant.

## GWEDDI HEDDWCH

*Caplan*

O Dduw Nefol, cyflwynwn i ti raniadau
dwfn ein byd.

Rho yng nghalonnau pobl ysbryd edifeirwch,
maddeuant a chymod,

Fel na fyddant yn amau nac yn ofni ei
gilydd mwyach,

Ond yn dod ynghyd mewn dealltwriaeth,
fel y gallant drwy undod eu diben
geisio ffordd heddwch;

Drwy Iesu Grist ein Harglwydd.
**Amen**




*Caplan*

Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd,
sancteiddier dy enw;
deled dy deyrnas;
gwneler dy ewyllys;
megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.
Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol.
A maddau i ni ein dyledion,
fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.
Ac nac arwain ni i brofedigaeth;
eithr gwared ni rhag drwg.
Canys eiddot ti yw'r deyrnas,
a'r nerth, a'r gogoniant,
Yn oes oesoedd.
**Amen**

## Y FENDITH

*Caplan*

Ewch ymaith i'r byd mewn heddwch, byddwch yn ddewr, daliwch yn dynn yn yr hyn sy'n dda, na roddwch ddrwg am ddrwg i unrhyw un. Cefnogwch y gwan, helpwch y rhai trallodus i garu a gwasanaethu'r Arglwydd a boed i ras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw a Chymdeithas yr Ysbryd Glân fod gyda chi a phawb rydych yn ei garu, yn awr a hyd byth.
**Amen**




WHILST SERVING THE PEOPLE OF SOUTH WALES
I'N CYDWEITHWYR A FU FARW

# Wrth y Deial Haul Coffa

## DEFOD Y COFFA

*Caplan*

Down at y Deial Haul Coffa i gofio gerbron Duw ein Tad bob un a garwn, ond nas gwelwn mwyach, a fu farw wrth wasanaethu Heddlu De Cymru, ac i ddiolch i Dduw am eu bywydau a'u hymroddiad.

## MEMORIAM

*Caplan*

O Dduw graslon, helpa ni i wrando'n gariadlon ar dy Air, fel y cawn gysur yn ein galar, goleuni yn ein tywyllwch, a ffydd yng nghanol yr amheuaeth;
drwy Iesu Grist ein Harglwydd.
**Amen**

## RHUFEINIAID Pennod 8 adnod 31-39

*Caplan*

Os yw Duw o'n plaid, pwy sy'n ein gwrthwynebu? Ef nad arbedodd ei Fab ei hun ond a'i rhoddodd i bob un ohonom, oni fydd hefyd yn rhoi popeth gydag ef i ni? Pwy a ddwg gyhuddiad yn erbyn etholedig un Duw? Duw sy'n cyfiawnhau; pwy fydd yn condemnio? Ai Iesu Grist, a fu farw, ie a gododd o'r meirw, sydd ar ddeheulaw Duw, sy'n eiriol drosom? Pwy a'n gwahenir rhag cariad Crist? Ai trallod, neu ofid, neu erledigaeth, neu newyn, neu noethni, neu berygl, neu gleddyf?
Fel y mae wedi'i ysgrifennu,

"Er dy fwyn di fe'n rhoddir i farwolaeth drwy'r dydd,
fe'n cyfrifir fel defaid i'w lladd."

Na, yn yr holl bethau hyn rydym yn fwy na choncwerwyr drwyddo ef a'n carodd ni. Oblegid rwyf yn siAr na all bywyd na marwolaeth, nac angylion, na thywysogaethau, na phethau presennol, na phethau i ddod, na phwerau, nac uchder na dyfnder, nac unrhyw beth arall yn yr holl gread, ein gwahanu oddi wrth gariad Duw yn Iesu Grist ein Harglwydd.

## GWEDDI AR GYFER YR YMADAWEDIG

*Caplan*

O Dduw trugarog, a roddodd yn dy garedigrwydd gymaint o lawenydd i ni drwy dy weision ymadawedig; diolch amdanynt ac am ein hatgofion amdanynt. Rhoddwn glod i ti am dy ddaioni a'th drugaredd a'u dilynodd bob diwrnod o'u hoes ac am eu teyrngarwch yn y tasgau y galwaist hwy i'w gwneud. Sancteiddiwn di am fod gorthrymder y byd hwn drosodd iddynt hwy a bod marwolaeth wedi dod iddynt; rhoddwn hwy yn ôl i ti ein Harglwydd a gweddïwn y byddi'n dod â ni gyda hwy i lawenydd dy deyrnas berffaith, drwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen**

**Cofiwn o 2020:**

Ditectif Gwnstabl Lianne Matthews

Staff yr Heddlu Jayne Hubbard-Miles

Cwnstabl Jeremy Veck

Cwnstabl Gareth Quick

**Ac ers ein gwasanaeth y llynedd:**

Staff yr Heddlu Tina Singh

Cwnstabl Robert Parry

Staff yr Heddlu Steven Taylor

Cwnstabl Kyle Burns

Rhingyll Mark Wesley

Staff yr Heddlu Ian Hopkins

Cwnstabl Stuart Styles

Ditectif Gwnstabl Philip Colston

## GWEDDI AR GYFER Y RHAI SY'N GALARU

*Caplan*

Dduw Tragwyddol, gweddïwn dros bawb sy'n galaru, cysura a chefnoga hwy a'u cynnal. Helpa nhw i wybod dy fod bob amser gyda hwy ac i beidio meddwl am dywyllwch marwolaeth, ond am ogoniant bywyd tragwyddol gyda thi. Gweddïwn hyn yn enw Iesu. **Amen**

## GWEDDI AR GYFER YR HEDDLU

*Caplan*

Dduw hollalluog, cyflwynwn i ti mewn gweddi y sawl sy'n gyfrifol am gynnal cyfraith a threfn yn ein gwlad yn enwedig aelodau'r gwasanaeth heddlu.

Rho iddynt ffydd, gobaith, dewrder a doethineb i gyflawni eu dyletswyddau'n gyfiawn a thosturiol heb ofn na ffafriaeth, fel y gellir diogelu'r dieuog, dwyn drwgweithredwyr i gyfrif, amddiffyn hawliau pawb, fel y gallwn fel cenedl fwynhau bendithion cymdeithas gyfiawn, rydd a heddychlon. Gweddïwn hyn yn enw Iesu. **Amen**

*Prif Gwnstabl*

*Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru*

## GOSOD Y DORCH WRTH GOFEB Y DEIAL HAUL

## Y FENDITH

*Caplan*

Dduw, rho ras i'r byw; rho orffwysfa i'r ymadawedig, a rho fywyd tragwyddol i ni a'i holl weision; a boed i sancteiddrwydd Duw'r Hollalluog, y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân fod gyda chi a thrigo ynoch bob amser. **Amen**

# Gwasanaeth Coffa 2020







POLICE
HEDDLU












LEST
WE
FORGET
LEST
WE
FORGET
LEST
WE
FORGET

